## GORCHYMYN DIDDYMU LLWYBR CYHOEDDUS 2016

## DEDDF Y PRIFFYRDD 1980 ADRAN 118

## CYNGOR SIR CEREDIGION

### Llwybr Troed 48/9 Godre'r Garth Llanddewi Brefi

Gwneir y Gorchymyn hwn gan Gyngor Sir Ceredigion ("yr Awdurdod") yn unol ag adran 118 o Ddeddf y Priffyrdd 1980 ("Deddf 1980") gan fod yr awdurdod o'r farn nad oes angen y llwybr troed a ddisgrifir isod at ddefnydd y cyhoedd.

Ymgynghorwyd â Chyngor Cymuned Llanddewi Brefi fel sy'n ofynnol yn unol ag adran 120(2) o Ddeddf 1980.

**TRWY'R GORCHYMYN HWN**

1. Caiff yr hawl dramwy gyhoeddus ar y tir sydd yn Godre'r Garth, Llanddewi brefi, a nodir â llinell drwchus ddi-dor (rhwng pwynt F&D) ar y map sydd gyda'r Gorchymyn hwn ac a ddisgrifir yn Rhan 1 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn ei ddiddymu 49 o ddiwrnodau wedi dyddiad cadarnhau'r Gorchymyn hwn.

**ATODLEN**

DISGRIFIAD O DRYWYDD Y LLWYBR PRESENNOL

Ei ddiddymu o bwynt F SN6443:5566 i gyfeiriad y de orllewin ar hyd y trac mynediad hyd at bwynt D SN6435:563. Oddeutu 50 metr o hyd.

Gosodwyd **SÊL GYFFREDIN CYNGOR SIR CEREDIGION**
yng ngŵydd

ar y 2ail o mis Mawrth 2016

…………………………………
Cadeirydd

…………………………………

Cyfarwyddwr Strategol Cymunedau Cynaliadwy